# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
# Y PENCADLYS, PARC BUSNES FOREST VIEW, LLANTRISANT

## CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## CYNORTHWYYDD CYFATHREBIADAU

**37 AWR YR WYTHNOS**

**GRADD 5**

**CYFLOG: O £20,092 i £20,493 y flwyddyn**
(Sylwch fod pob cyflog yn destun gwerthuso swydd)

**Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Swyddog Cyfathrebiadau o fewn Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm sy'n gyfrifol am gyfathrebiadau mewnol ac allanol i'r Gwasanaeth. Byddan nhw'n gallu cynnal agwedd hyderus a gwydn mewn sefyllfaoedd heriol iawn a gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth o dechnegau cyfathrebu, yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd.

Bydd prif ddyletswyddau'r swydd yn cynnwys:

- Cefnogi lansiadau ymgyrchoedd allweddol a/neu ddigwyddiadau ymgysylltu sy'n hyrwyddo amcanion a negeseuon y Gwasanaeth, drwy fynychu gydag aelodau eraill o'r tîm ac adrannau eraill o fewn y sefydliad.
- Mynychu a chefnogi digwyddiadau a drefnir gan y sefydliad er mwyn denu talent i'r Gwasanaeth a'r ystod o gyfleoedd a gynigir.
- Cynorthwyo â'r broses o ddylunio, creu, cylchredeg a dadansoddi arolygon a ddefnyddir gan y sefydliad i gasglu gwybodaeth.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu digwyddiadau ymgynghori, ynghyd ag aelodau eraill o Dîm Cysylltiadau a Chyfathrebiadau'r Cyfryngau.
- Sefydlu a chynnal llyfrgell ddelweddau'r tîm.
- I reoli'r broses goladu ar gyfer cylchlythyr mewnol y Gwasanaeth a gweithio i ddrafftio a chwblhau cynnwys mewn cydweithrediad ag aelodau eraill y tîm cyn ei gymeradwyo gan Reolwr Cysylltiadau a Chyfathrebiadau'r Cyfryngau
- Cynorthwyo i amserlennu cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 hanner dydd, ar Dydd Llun 14eg Medimae dyddiad y cyfweliad eto i'w gadarnhau.**
Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG